

**Archwiliad**  
**Adolygu**  
**Cynllun Datblygu**  
**Lleol Eryri**  
**Snowdonia Local**  
**Development Plan**  
**Revision**  
**Examination**

**Richard Duggan** BSc(Hons) DipTP MRTPI

Arolygydd Cynllunio / Planning Inspector

**Rhian Randall:** Swyddog Rhaglen / Programme Officer

Swyddfa'r Parc Cenedlaethol / National Park Office

Penrhyndeudraeth

Gwynedd

LL48 6LF

Ffôn / Tel 01766 772203

[swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru](mailto:swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru)  
[programmeofficer@snowdonia.gov.wales](mailto:programmeofficer@snowdonia.gov.wales)

Ms Rebeca Jones  
Pennaeth Polisi Cynllunio  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol  
Penrhyndeudraeth  
Gwynedd  
LL48 6LF

9 Chwefror 2018

Annwyl Ms Jones,

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**  
**Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2016 – 2031**

Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, rwy'n darllen y dogfennau a gyflwynwyd gennych yn rhan o'ch cyflwyniad ffurfiol ar y CDLI Diwygiedig i'w Archwilio. Ar sail asesiad cychwynnol, mae mater pwysig yr hoffwn ei godi gyda chi ar yr adeg gynnar hon.

Nodaf fod yr Awdurdod yn cynnig gwneud rhagor o newidiadau i'r Cynllun Adneuo, a bod y newidiadau hyn yn ymwneud â'r rhannau hynny o'r cynllun a gyflwynwyd yr oeddech yn dymuno eu diwygio'n wreiddiol, yn ogystal â rhannau eraill o'r cynllun nad oeddent yn rhan o'r adolygiad. Hoffwn eich atgoffa y dylai'r Awdurdod ond rhoi cynllun ar adnau os yw o'r farn ei fod yn gadarn, ac y dylid osgoi gwneud newidiadau ar ôl y cyfnod adneuo lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, deallaf y gallai fod angen ystyried cynnig newidiadau pellach fel eithriad er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gadarn.

Er bod yr Awdurdod o'r farn mai mân newidiadau yw'r rhain, rwy'n anghytuno. Ymhellach, mae'r Archwiliad hwn yn ymwneud â'r elfennau hynny o'r cynllun y cynigir eu newid wrth ei gyflwyno. Nid yw polisïau, testun, tablau, mapiau a ffigurau heb eu newid sydd y tu allan i gwmpas adolygu'r cynllun yn destun Archwiliad. Ni all Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud newidiadau sylweddol i Gynllun wedi iddo gael ei gyflwyno i'w Archwilio ond, yn fy marn i, bydd hysbysebu'r **holl** newidiadau pellach fel 'Newidiadau â Ffocws' yn galluogi'r newidiadau hyn i gael eu hystyried ac, os canfu eu bod yn gadarn, gellir eu cynnwys yn y CDLI newydd. Byddwn yn tynnu eich sylw at Adran 7.6 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 2) Awst 2015, sy'n rhoi arweiniad ar sut i fynd i'r afael â newidiadau hwyr: Newidiadau â Ffocws.

Gofynnir i chi ymateb i'r uchod, gan amlinellu rhestr o'r dogfennau sydd i'w paratoi ac amserlen fanwl ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn, erbyn 16 Chwefror 2018.

Rwyf wedi bod yn trafod â'm swyddog rhaglen yn ddiweddar i drefnu'r Cyfarfod Cyn-gwrandawriad ar gyfer 27 Mawrth 2018, gyda'r bwriad o ddechrau sesiynau'r gwrandawriad ar 15 Mai 2018, ond bydd angen gohirio'r rhaglen hon erbyn hyn er mwyn ystyried yr uchod. Caiff unrhyw wybodaeth ychwanegol neu gyfnewid arall ynghylch y materion hyn eu rhoi ar wefan yr Archwiliad er gwybodaeth i bartïon eraill â buddiant.

Wrth i mi barhau â'm paratodau, **efallai** y bydd materion eraill i'w codi â chi cyn y Cyfarfod Cyn-gwrandawriad a sesiynau'r gwrandawriad a fydd o gymorth i'm gwaith paratoadol, ond a fydd hefyd yn rhoi cyfle cynnar i chi wneud unrhyw waith ychwanegol er mwyn osgoi unrhyw oedi i gamau diweddarach yr archwiliad.

Mae pob croeso i chi gysylltu â mi trwy'r Swyddog Rhaglen os oes angen eglurhad pellach arnoch ar unrhyw un o'r pwyntiau uchod.

Yn gywir

*Richard Duggan*

**Richard Duggan**  
**AROLYGYDD**